

**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS LUN, 23<sup>AIN</sup> HYDREF 2017 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Maer y Dref, Y Cynghorydd J Pearson (Cadeirydd)  
Y Cynghorwyr Mrs G Baker; B. Barton, D. Bradley, Mrs G. Campbell, J. Davies, Mrs H. Fleet; C. Hughes, M.A. Jones, Mrs M Jones; A. Kealey, A Khan, C. Matthews, Mrs H Meredith, T Pearson, P Richards, Mrs K. Swindon, S Williams.

**SWYDDOG:** Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref

**HEFYD YN BRESENNOL:** Mr Mark Roberts a Mr Mike Hatton, Ymddiriedolaeth Pier Victoria Colwyn (YPVC)  
Mrs Jane Richardson, Mr Rob Dix a Mr Huw Davies, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Cynghorwyr Sir: C. Carlisle, B. Cossey a B. Squire.  
Nifer o'r cyhoedd

**195/17 Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

- a. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr A Mason, M. Tasker ag M. Worth a'r Cynghorydd Sir M. Doyle
- b. Oherwydd ei phresenoldeb yn y cyfarfod, nid oedd angen ystyried cais y Cynghorydd Mrs H. Meredith am gyfnod estynedig o absenoldeb.

**196/17 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau.

Datganodd y Cynghorydd A. Khan ei gysylltiad personol am y cyflwyniad gan Ymddiriedolaeth Pier Victoria Colwyn am ei fod yn aelod o YPVC.

**197/17 Ymwelwyr:**

Croesawyd Mark Roberts, Cadeirydd Ymddiriedolaeth Pier Victoria Colwyn yn ffurfiol i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, er mwyn iddo roi diweddariad am gynlluniau i ailddatblygu Pier Victoria Colwyn. Roedd Mrs Jane Richardson, Cyfarwyddwraig Strategol Economi a Lle, Rob Dix, Swyddog Adfywio a Mr Huw Davies, Swyddog Cadwraeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn bresennol hefyd er mwyn iddynt ymateb am sefyllfa'r Cyngor Sir.

Diolchodd Mark i'r aelodau am y cyfle i roi diweddariad iddynt a chyfeiriodd at gymaint a wnaed yn y flwyddyn a aeth heibio. Datblygwyd perthynas cadarnhaol da gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC). Cadarnhaodd Jane Richardson bod deialog agos wedi cael ei gynnal rhyngddynt am nifer o fisoedd a bod y perthynas yn seiliedig ar gydweithrediad ac ymddiriedolaeth, a bod CBSC yn cynnig yr arbenigedd sydd ar gael i gefnogi'r Ymddiriedolaeth.

Yna cyfeiriodd Mark at gyfarfod gyda Chronfa Treftadaeth y Loteri (CTL) yn gynharach yn y flwyddyn pryd y datgelwyd na fyddai cefnogaeth ariannol yn

debyg i fod ar gael i Bierau yn y DU nac yng Nghymru. Fodd bynnag, mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddarach gyda Phennaeth CTL Cymru, fe gadarnhawyd ganddo bydd unrhyw gais gan yr Ymddiriedolaeth am gyllid Treftadaeth Gydnerth yn cael ei ystyried. Fe obeithir, os bydd y cais cychwynnol yn llwyddiannus, gellir gwneud ceisiadau eraill yn y dyfodol.

Yn y cyfamser, cynyddodd aelodaeth yr Ymddiriedolaeth ac mae'r Bwrdd yn canolbwyntio mwy ar fod yn fusnes ac nid bellach yn ystyried ei hun yn garfan bwysu. Bu'n datblygu'r cysyniad ar gyfer dyfodol y Pier, a disgwylir cais adeilad rhestredig i ddilyn yn y man. Ochr yn ochr â hyn, mae David Clarke Associates, arbennigwyr cydnabyddedig yn y maes, wedi bod yn datblygu cynllun busnes i'r Ymddiriedolaeth, gan edrych yn helaeth ar brosiectau eraill ar draws y DU a dysgu o unrhyw gamgymeriadau a wnaed.

Yna dangosodd Mark gyfres o sleidiau yn ymwneud a'r amcan i ailddatblygu'r pier, y sail am hyder, egwyddorion arweiniol i'w adfywio a dadansoddiad o'r defnydd yn y pen draw. Atgoffwyd yr aelodau ganddo, bod CBSC wedi rhoi caniatâd adeilad rhestredig i ddatgymalu ac adfer Pier byrrach a fyddai gyfystyr a cham un o gynlluniau'r Ymddiriedolaeth ei hun.. Fe hoffai'r Ymddiriedolaeth ceisio barn y cyhoedd ar ei chysyniad am y Pier cyn cyflwyno unrhyw gais cynllunio, er mwyn mesur lefel y gefnogaeth yn y gymuned leol a'r dalgylch ehangach. Fe gydnabyddir bod angen ystyried bwriad gwreiddiol o gael y Pier. Ar hyn o bryd hwn yw'r Pier rhestredig olaf yn y DU efo theatr. Hefyd, mae angen am gymysgedd da o weithgareddau trwy'r flwyddyn, fydd angen i fod yn ddeniadol i'r trigolion lleol. Bydd yn ofynnol i'r prosiect dangos y gellir ei redeg heb gymhorthdal gan drethdalwyr lleol a bydd angen cefnogaeth sylweddol gan wirfoddolwyr a phartneriaid masnachol i alluogi hyn i ddigwydd.

Yna aeth ymlaen i roi trosolwg o'r model rheolaeth at y dyfodol, profiadau a Phierau eraill a ailddatblygwyd yn ddiweddar a'r gallu i gyflwyno'r prosiect a'i weithio mewn camau gan gydnabod bod yna 'amser dyrys o'n blaenau'. Roedd Pennaeth CTL Cymru wedi cael ei blesio gyda photensial y cynllun busnes a gyflwynwyd. Fe amcangyfrifir, yn seiliedig ar y nifer o ymwelwyr ar y Promenâd, bydd incwm refeniw o £1.13m o Pier a adnewyddwyd yn bosibilrwydd realistig Bydd cefnogaeth leol yn hanfodol bwysig ac fe gomisiynir mwy o adroddiadau gan arbenigwyr i gefnogi ceisiadau am gyllid yn y dyfodol. Cyfeiriwyd yn fyr at gostau'r gwaith hwn a dalwyd gan y Cyngor Tref yn flaenorol, a chynnig y Cyngor Tref o £15,000 o arian cyfatebol tuag at y gwaith (Cofnod 212/16(b), 17eg Hydref 2016), ar yr amod bod o leiaf £15,000 o arian cyfatebol yn cael ei dderbyn o ffynhonnau eraill.

Diolchodd y Cadeirydd i Mark am ei gyflwyniad a chafwyd sesiwn o holi gan yr aelodau. Roed y cwestiynau a'r sylwadau yn ymwneud a'r materion canlynol: pa ragamcaniad a ddefnyddiwyd i fesur y nifer o ymwelwyr a fyddai'n defnyddio'r safle; mynegwyd pryder na fyddai arian cyhoeddus yn gallu cefnogi'r Pier wedi ei ddatblygu pe bai'r cynllun busnes yn methu, oherwydd yr angen i flaenoriaethu ar wasanaethau cymdeithasol ac addysg; sut olwg bydd ar y Pier wedi iddo gael ei ailddatblygu; pwysigrwydd y cais am gyllid Treftadaeth Gydnerth ee mwyn deall y strwythur a'r potensial am ei ddefnydd yn y dyfodol yn well; cadarnhad na fydd unrhyw gymorthdaliadau pellach ar gael gan GBSC tuag at y Pier wedi ei ailddatblygu, ond bydd CBSC

yn cefnogi model busnes hydwyth a chynaliadwy; pa ymgyrchoedd codi arian a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth yn y blynyddoedd diwethaf; a yw cyfrifon yr Ymddiriedolaeth ar gael i ddangos yr incwm a'r gwariant hyd yn hyn; amserlen yr ymgynghoriad cyhoeddus disgwylidig; cynnig i brawf ddarllen adroddiadau / dogfennau cais.

- Gadawodd y Cynghorydd H. Meredith y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

***Penderfynwyd rhoi heibio'r Rheolau Sefydlog yn y pwynt yma er mwyn i'r Cynghorwyr Sir ofyn cwestiynau / gwneud sylwadau.***

Yna parhawyd gyda'r sesiwn holi ag ateb gan ymdrin â: diweddariad am gynlluniau CBSC i ddechrau datgymalu; cynigion gan YPVC am Bier llai o hyd yn y lle cyntaf, gyda lle i gynnal amryw o ddigwyddiadau megis dawn / sioe / pwrpasau eraill a man i gynnal digwyddiadau allanol; y posibilrwydd o gael pedwar neu bump o gamau i lwyr adfer; pryderon am y posibilrwydd o lygriad asbestos os daw storm(ydd) cyn i'r gwaith o ddatgymalu'r pafiliwn ddechrau (tybier bydd y gwaith yn dechrau yn Ionawr gydag amserlen o 10-12 wythnos); effaith buddsoddiad cadarnhaol o greu cyrchfan i bobl; fe all y Pier fod yn Em yn y Goron ar y Promenâd newydd .

Diolchwyd i'r gwesteion o Ymddiriedolaeth y Pier a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am fod yn bresennol a gadawsant y cyfarfod ac fe adferwyd y Rheolau Sefydlog.

***Penderfynwyd gofyn am gopi o'r sleidiau a ddangoswyd, ynghyd a chyfrifon diweddar yr Ymddiriedolaeth (adroddiad incwm / gwariant a mantolen) a chostau manwl am y gwaith sydd angen ei wneud rwan, ynghyd a chadarnhad am y ffynonellau ariannu cyfatebol.***

**198/17 Materion a Ohiriwyd:**

***Penderfynwyd ystyried gweddill y materion a ohiriwyd o gyfarfod y Cyngor oedd i'w gynnal ar 16eg Hydref ag a ohiriwyd fel a ganlyn.***

**199/17 Cyhoeddiadau:**

Rhodddwyd cyhoeddiad byr ar lafar gan y Maer am y ddau ddigwyddiad sydd ar ddod; swper pysgod a sglodion gydag adloniant i'w gynnal ar 30<sup>ain</sup> Tachwedd a dawnsio gwerin i'w gynnal yn Chwefror / Mawrth er budd elusennau'r Maer. Ymddiheurodd am y siwrne ddiangen i'r aelodau hynny nad oeddynt wedi gweld / clywed am ohirio cyfarfod nos Lun diwethaf, ond sicrhodd yr aelodau nad ar chwarae bach y gwnaed y penderfyniad hwn ond oherwydd y cyngor o'r Swyddfa Tywydd, a dderbyniwyd yn gynharach yn y diwrnod, i roi digon o rybudd i bawb.

**200/17 Ymwelwyr:**

- a. Fe nodwyd bydd Mr Bleddyn Evans yn bresennol yn y cyfarfod yn Rhagfyr er mwyn iddo roi diweddariad am y swyddfeydd newydd.
- b. Estynnwyd croeso swyddogol i Gynghorwyr y Sir dros ardal Colwyn i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

***Penderfynwyd cymeradwyo newid Rheol Sefydlog Rhif 28 y Cyngor - Cysylltiad gyda Chynghorwyr Sir, i alluogi'r Cyngor Tref cael unrhyw adroddiadau ar lafar gan Gynghorwyr Sir ym mhob Cyfarfod Cyngor arferol.***

Cyflwynodd y Cynghorwyr Sir oedd yn bresennol yn y cyfarfod eu hunain i'r Cyngor, a diolchwyd am y gwahoddiad. Fe gydnabuwyd yr angen am gydweithio a rhannu gwybodaeth. Cyhoeddodd y Cynghorydd Cossey bod yr ardfreniant ariannol i lywodraeth leol ar gyfer 2018/19 wedi cael ei gyhoeddi'n ddiweddar ac mai Conwy a dderbyniodd y gostyngiad ariannol mwyaf o bob awdurdod yng Nghymru sef £1.5m. Gyda chwyddiant (cyflogau ayb) a'r pwysedd cynyddol ar gyllidebau gwasanaethau cymdeithasol, oherwydd y boblogaeth sy'n heneiddio, mae hyn yn gyfystyr a gostyngiad o 4.8% ar y cyllidebau presennol. Gyda chyllidebau addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn debyg o gael eu diogelu, bydd pwysau anorfod ar gyllidebau eraill a bydd toriadau ar wasanaethau yn anochel. Cyfeiriodd y Cynghorydd Squire at yr angen i weithio'n agosach parthed ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar drigolion lleol, a chyfeiriodd at un cais diweddar ac un cais cyfredol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Carlisle at bryderon am feddygfeydd meddygon teulu yn cau a materion yn ymwneud â chynllunio.

Yna cafwyd trafodaeth fer ar sut i weithredu'r cyfnod 15 munud orau wrth fynd ymlaen, gyda'r Cynghorwyr Sir yn datgan nad oeddynt yn gwybod yr hyn nad oedd Cynghorwyr Tref ddim yn gwybod, neu yr hoffent wybod amdano

***Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorwyr Tref cyflwyno unrhyw gwestiwn am wasanaethau'r Cyngor Sir i'r Clerc, fel y gellir ei hanfon ymlaen at yr aelod(au) priodol i ymateb yn y cyfarfod nesaf.***

#### **201/17 Cofnodion:**

- a. ***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 4<sup>ydd</sup> Medi 2017.***
- b. ***Penderfynwyd derbyn copi o gofnodion y cyfarfodydd canlynol:***
  - i. ***Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 12<sup>fed</sup> Medi 2017.***
  - ii ***Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 27<sup>ain</sup> Medi 2017 (Drafft)***
  - iii ***Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 3<sup>ydd</sup> Hydref 2017 (Drafft).***

#### **202/17 Materion yn Codi o'r Cofnodion Hynny :**

- a **Cofnod 153/17(b) - Canlyniad Blynyddol:**

***Penderfynwyd derbyn a chymeradwyo'r canlyniad a archwiliwyd a nodi ei bod wedi cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'r hysbysfwrdd cyn 30<sup>ain</sup> Medi, sef y terfyn amser***

- b ***Penderfynwyd cadarnhau argymhellion y Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion canlynol:***

**i. Cofnod 172/17 - Prif Ddigwyddiadau yng Nghonwy:**

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad gwerthuso am gyngherddau 2017 a gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cais gan Rachael Gill am gefnogaeth barhaus bellach am gyfnod o 3-5 mlynedd i'r cyngherddau blynyddol ym Mharc Eirias (£20,000) a Prom Xtra (£10,000) ac am gefnogaeth ariannol ychwanegol yn 2018 am ddau ddigwyddiad mawr lleol (£25,000).

Fe nodwyd yr hoffai rai busnesau yn Llandrillo yn Rhos weld Prom Xtra yn dychwelyd i Rhos, ond fe gydnabuwyd ei fod wedi tyfu'n fwy na'r safle gwreiddiol islaw Promenâd Cayley ac efallai na ellir ei ymestyn ymhellach na'r Toad.

Fe gynigiwyd ac fe eiliwyd i addo cefnogaeth i'r ddau brif ddigwyddiad blynyddol am gyfnod pellach o bum mlynedd, yn amodol ar werthusiad boddhaol pob blwyddyn. Hefyd bod unrhyw gyfraniad ychwanegol i'r digwyddiadau eraill yn cael eu hystyried pob blwyddyn fel rhan o'r broses o osod y gyllideb am y flwyddyn ddilynol, naill ai fel cyllideb benodol neu fel rhan o gyllideb ehangach 'digwyddiadau eraill'.

Cynigiwyd gwelliant, yn diddymu'r amserlen o bum mlynedd ac addo cefnogaeth i'r ddau brif ddigwyddiad am gyfnod amhenodol, ar yr amod bod gwerthusiad blynyddol boddhaol. Trechwyd y gwelliant hwn.

*Penderfynwyd, trwy fwyafrif, i addo cyfanswm o £30,000 o gefnogaeth ariannol tuag at y ddau brif ddigwyddiad blynyddol am gyfnod pellach o bum mlynedd, yn amodol ar werthusiad boddhaol pob blwyddyn, a bod unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer digwyddiadau eraill yn cael eu hystyried pob blwyddyn fel rhan o'r broses o osod y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ddilynol, naill ai fel cyllidebau penodol neu fel rhan o gyllideb ehangach 'digwyddiadau eraill'.*

**ii. Cofnod 176/17 - Cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri (CTL) - Mannau Gwych:**

Cyflwynodd y Clerc copi o'r datganiad o ddiddordeb a anfonwyd at CTL gan CBSC a rhoddodd adroddiad byr ar lafar am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28ain Medi. Yna gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cais am arian cyfatebol o £17,000 dros gyfnod o dair blynedd, mewn partneriaeth gyda CBSC a BID Colwyn, mewn ymgais i gael grant o £500,000.

Roedd yr Aelodau o'r farn y dylai'r Pwyllgor Polisi a Chyllid craffu'r cais yn fanwl yn y lle cyntaf. Fe nodwyd, fodd bynnag, bod angen penderfyniad mor fuan â phosibl er mwyn paratoi cais i'w gyflwyno erbyn dechrau Rhagfyr ac efallai na fydd digon o amser i gyflwyno argymhelliad i'r Cyngor llawn.

*Penderfynwyd rhoi awdurdod dirprwyol i'r Pwyllgor Polisi a Chyllid i ystyried a phenderfynu'r cais am gefnogaeth ariannol o £17,000 dros gyfnod o dair blynedd ac argymell gwahodd Pennaeth y Prosiect i fod yn bresennol yn y cyfarfod i egluro'r prosiect yn fanylach ac i ymateb i unrhyw gwestiynau gan yr Aelodau.*

**iii. Cofnod 178/17 - Cynllun Dilyniant Busnes:**

*Penderfynwyd cymeradwyo'r Cynllun drafft.*

**iv. Cofnod 182/17 - Grantiau Bach:**

*Penderfynwyd cymeradwyo talu'r grantiau bach fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 'B' i'r cofnodion.*

**v. Cofnod 190/17(d) - Cyllido Grant Diwrnod Chwarae:**

*Penderfynwyd rhoi awdurdod i wario'r tanwariant o £130 ar ddigwyddiadau Chwarae yn ystod hanner tymor Hydref.*

- c. Penderfynwyd nodi holl benderfyniadau'r Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion.**

**203/17 Adolygiad Llywodraeth Cymru o Gynghorau Cymuned a Thref:**

Cyflwynodd y Clerc copi o'r cais am dystiolaeth am yr adolygiad presennol o sector cynghorau cymuned a thref.

*Penderfynwyd gofyn i bob Cynghorydd cyflwyno unrhyw sylwadau ar y cwestiynau at y Clerc a bod y Pwyllgor Polisi a Chyllid yn eu hystyried yn eu cyfarfod nesaf a phenderfynu ar ymateb.*

**204/17 Hydwythdedd Cymunedol:**

Cyflwynodd y Clerc adroddiad am gyfarfod diweddar i'w ystyried. Fe nodwyd bod y grŵp wedi meddwl y byddai'n well i greu pedwar is-grŵp i weithio ar fanylion lleol yr ardaloedd canlynol: Llandrillo yn Rhos, Bae Colwyn Uchaf. Bae Colwyn a Hen Golwyn. Gofynnodd y Clerc i'r Aelodau i barhau i gefnogi'r grŵp ar y sail yma.

*Penderfynwyd cymeradwyo i'r Clerc i barhau i weithio gyda'r is-grwpiau er mwyn cael gwybodaeth drylwyr am gynllun hydwythdedd ardal Bae Colwyn.*

**205/17 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:**

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar yn dilyn cyfarfod gyda Chlercod Tref leol a'r Cyfarwyddwr Strategol a Swyddogion CBSC a gynhaliwyd ar 5<sup>ed</sup> Hydref. Fe nodwyd bod Fran Lewis wedi rhoi cyflwyniad am y Ddeddf, gan atgoffa pawb oedd yn bresennol am ddyletswyddau cyrff cyhoeddus a chynghorau tref a chymuned gyda gwariant blynyddol on dros £200,000. Roedd hyn yn ymwneud a saith nod llesiant, egwyddor SD a'r pum dull o weithio, y gwaith a wnaed hyd yn hyn gan PSB a'r cylch cynllunio (copi ar gael gan y Clerc ar gais). Fe nodwyd bod newid mewn ymddygiad yn hanfodol, gyda symudiad i ddull o fwy cydweithio. Gofynnwyd i Fran weithio gyda chynghorau'r trefi

mwy er mwyn rhoi cefnogaeth a chyngor ac fe gynhelir cyfarfod arall ar 28/29 Tachwedd.

***Penderfynwyd disgwyl am adroddiad gan y Clerc ac am fwy o wybodaeth am Gynllun / Amcanion Llesiant yr Ardal gan PSB sydd i gael ei gyhoeddi'n fuan.***

Fe nodwyd ymhellach bod y Clerc yn bwriadu trefnu sesiynau gweledigaethol unwaith fydd y wybodaeth hon ar gael, er mwyn cytuno ar weledigaeth ag amcanion cyfrannol i'r Cyngor Tref am weddill y tymor mewn swydd.

**206/17 Lwfans Ward i Aelodau:**

Cyflwynodd y Clerc manylion am y cynllun a chopi o'r Ffurflen Cynnig am Brosiect at atgoffwyd yr Aelodau ganddi am y cynllun a sut i wneud cais am gyllid,

**207/17 Gwasanaethau Iechyd:**

Rhoddodd y Maer adroddiad byr ar lafar yn dilyn adroddiad diweddariad gan Dr Singh o Feddygfa Bae Penrhyn, yn dweud ei fod yn dal i boeni am y gwasanaethau iechyd yn yr ardal. Yn ol Dr Singh, mae meddygfeydd meddygon teulu yn parhau i fod dan bwysedd a'r ysbytai mewn argyfwng gyda diffyg gwelyau oherwydd diffyg gwelyau yn y gymuned (ar ol i nifer o ysbytai cymunedol cau). Fe nodwyd bod y Maer wedi gofyn i Dr Singh anfon ei bryderon ysgrifenedig fel gall y Cyngor Tref trafod y rhain gyda swyddogion o'r Bwrdd Iechyd ar ran y trigolion lleol.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 p.m.

.....Cadeirydd

**MINUTES OF A MEETING OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL,  
HELD IN THE COUNCIL CHAMBER, TOWN HALL, RHIW ROAD,  
COLWYN BAY, AT 6.30 P.M. ON MONDAY 23<sup>RD</sup> OCTOBER 2017**

**PRESENT:** The Mayor, Cllr J Pearson, Chairman  
Cllrs: Mrs G Baker; B Barton; D Bradley; Mrs G Campbell; J Davies;  
Mrs H Fleet; C Hughes; M A Jones; Mrs M Jones; A Kealey; A Khan;  
C Matthews; Mrs H Meredith; A Pearson; P Richards; Mrs K

Swindon;

S Williams

**OFFICER:** Mrs C Earley, Town Clerk

**IN ATTENDANCE:** Mr Mark Roberts and Mr Mike Hatton, Colwyn Victoria Pier  
Trust

Mrs Jane Richardson, Mr Rob Dix and Mr Huw Davies, Conwy  
County

Borough Council

County Councillors: C Carlisle, B Cossey and B Squire

Several members of the public

**195/17 Apologies for Absence:**

- a. Apologies for absence were received from Cllrs: A Mason, M Tasker and M Worth and from County Councillor M Doyle.
- b. Due to her attendance at the meeting, there was no need to consider a request for an extended leave of absence from Cllr Mrs H Meredith.

**196/17 Declarations of Interest:**

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests.

Cllr A Khan declared a personal interest in respect of the presentation from the Pier Trust, in that he is a member of CVPT.

**197/17 Visitors:**

The Chairman formally welcomed Mark Roberts, Chairman of Colwyn Victoria Pier Trust, to give an update on proposals to redevelop Colwyn Victoria Pier, together with Jane Richardson, Strategic Director for Economy and Place, Rob Dix, Regeneration Officer, and Huw Davies, Conservation Officer, CCBC, who were present to answer any questions relating to the County Council's position.

Mark thanked members for the opportunity to come to update them and commented that a lot has happened in the past year and the relationship with CCBC was developing in a positive way. Jane Richardson confirmed that they have been working in close dialogue for several months and the



relationship is built on co-operation and trust, with CCBC now making its expertise available to support the Trust.

Mark then made reference to a meeting with the Heritage Lottery Fund earlier in the year, when it appeared that no further financial support would be available for Piers in the UK or Wales. However, a meeting has subsequently been held with the Head of the HLF in Wales and he has confirmed that they will consider an application for Resilient Heritage funding from the Trust. It is hopeful that, if this initial application is successful, future applications will be possible.

During this time, the Trust has also strengthened its membership and its Board and has become more business focussed, no longer considering itself as a pressure group. It has been developing its concept for the future Pier and a listed building application is expected to follow in due course. Alongside this, David Clarke Associates, a respected expert in the field, has been developing a business case for the Trust, looking extensively at other projects across the UK and learning from any mistakes made.

Mark then ran through a number of slides covering the purpose of a redeveloped pier, the basis for confidence, guiding principles for its restoration and an end use analysis. He reminded members that CCBC now has listed building consent to dismantle and restore a truncated Pier structure, which would be equivalent to phase one of the Trust's own plans. The Trust would like to take its concept for the Pier to public consultation prior to submitting any planning application, to gauge the level of support of the local community and wider catchment area. It recognises the need to reflect the original purpose of the Pier, which currently has the last remaining theatre on a listed Pier in the UK, but also the need for a good mix of year-round uses, which need to be meaningful for local residents. The project needs to demonstrate it would be free of subsidy from local taxpayers and would need significant volunteer support and commercial partnerships to enable this to happen.

He then went on to give an overview of the future management model, experiences of other recently redeveloped Piers and the deliverability/phasing of the project, acknowledging that there were 'testing times ahead', but that the Head of HLF Wales had been impressed with the potential of the business case presented. It is estimated, based on Promenade footfall figures, that £1.13m p.a. revenue is realistic from a restored Pier. Local support would be fundamentally important and more expert reports will need to be commissioned to support future funding bids. A brief reference was made to costs for this work, which had been provided to the Town Council previously, and the Town Council's offer of £15,000 match funding towards these (Min. 212/16(b), 17<sup>th</sup> October 2016), on the condition that a minimum of £15,000 of match funding is secured from other sources.

The Chairman thanked Mark for his presentation and questions were invited from members. Questions and comments covered the following matters: what footfall projections had been used; concern that the public purse could

not support a redeveloped Pier should the business plan fail, with social services and education being priorities; what a redeveloped Pier might look like; the importance of the resilient heritage bid to better understand the structure and its potential future uses; confirmation that there would be no future subsidy from CCBC for a redeveloped Pier, but that CCBC would support a viable and sustainable business model; what fundraising the Trust has done in recent years; whether the Trust's accounts could be made available to demonstrate funds raised and expenditure to date; the timing expected for public consultation; an offer to proof read reports/bid documents.

- Cllr H Meredith retired from the meeting during the discussion.

***Resolved to suspend Standing Orders at this point to allow County Councillors to ask questions/make comment.***

The question and answer session then continued, covering: update on CCBC plans to commence dismantling; proposals by CVPT for a reduced pier initially, with multi-functional dance/show/function space and outdoor event space; possibility of four to five phases to achieve full restoration; concerns about potential asbestos contamination if severe storm(s) prior to dismantling of pavilion building (estimate January start date and 10-12 week timeframe; positive impact of investment in creating a destination for people; Pier could be jewel in the crown of new Promenade.

The guests from the Pier Trust and Conwy County Borough Council were then thanked for attending and they retired from the meeting and Standing Orders were restored.

***Resolved to request a copy of the presentation slides, together with recent accounts for the Trust (income/expenditure report and balance sheet) and detailed costings for the work now required, together with confirmation of the source(s) of match funding.***

#### **198/17 Deferred Matters:**

***Resolved to consider the remaining matters from the postponed Council meeting, which was due to be held on 16<sup>th</sup> October, as follows.***

#### **199/17 Announcements:**

The Mayor gave a brief verbal announcement about two forthcoming events; a fish and chip supper, with entertainment, to be held on 30<sup>th</sup> November, and a barn dance to be held in February/March, in aid of the Mayor's charities. He also offered an apology to the member(s) who had not seen/heard the messages left about the postponement of the meeting last Monday evening, for their wasted journeys, and assured members that the decision had not been taken lightly, but had had to be taken early in the day on advice from the Met Office, to allow sufficient time to notify everyone.

## **200/17 Visitors:**

- a. It was noted that Mr Bleddyn Evans will be attending the December meeting to give an update on the new Office development.
- b. The Chairman officially welcomed the County Councillors for Colwyn area to the meeting.

***Resolved to approve an amendment to the Council's Standing Order no.28 – Liaison with County Councillors, to enable the town council to receive any verbal reports from County Councillors at each Ordinary council meeting.***

The County Councillors present at the meeting introduced themselves, thanked the Council for the invitation and acknowledged the need to work in collaboration and share information. Cllr Cossey announced that the provisional local government finance settlement for 2018/19 had recently been announced and that Conwy has had the largest cash reduction of any authority in Wales of £1.5m. With inflation (salaries etc) and increased pressure on social services budgets, due to an ageing population, this equates to a reduction of 4.8% on current budgets. With education and social services budgets likely to be protected, there inevitably be pressure on all other budgets and cuts to services will be inevitable. Cllr Squire commented on the need to work closely in respect of planning applications which affect local residents and made particular reference to one recent and one current application. Cllr Carlisle referred to concerns about GP surgery closures and planning matters.

A brief discussion then took place about how the 15 minute slot may work best going forward, with the County Councillors stating that they didn't know what the Town Councillors didn't know, or might want to know more about.

***Resolved to request that town councillors submit any questions they may have about county council services to the Clerk, to be forwarded on to the relevant local member(s) for response at the next meeting.***

## **201/17 Minutes:**

- a. ***Resolved to receive, approve and sign as a correct record the minutes of the last meeting of the Council, held on 4<sup>th</sup> September 2017.***
- b. ***Resolved to receive the minutes of the following meetings:***
  - i. ***The General Purpose & Planning Committee, held on 12<sup>th</sup> September 2017.***
  - ii. ***The Policy & Finance Committee, held on 27<sup>th</sup> September 2017 (Draft).***

**202/17 Matters Arising from Those Minutes:**

**a. Min. 153/17(b) – Annual Return:**

*Resolved to receive and approve the audited return and note it was published on the Council's website and noticeboard prior to the 30<sup>th</sup> September deadline.*

**b. *Resolved to endorse the recommendations of the Committees, as detailed in the following Minutes:***

**i. Min. 172/17 – Conwy Major Events:**

The Clerk submitted the evaluation report for the 2017 concerts and members were asked to consider a request from Rachael Gill for ongoing support for a further 3-5 year period for the annual concert(s) in Eirias Park (£20,000) and Prom Xtra (£10,000) and for additional financial support in 2018/19 for two further local major events (£25,000).

It was noted that some of the businesses in Rhos on Sea would prefer to see the Prom Xtra event back in Rhos, but it was acknowledged that it had outgrown its previous site below the Cayley Promenade and may only be able to extend as far as The Toad.

It was proposed and seconded that support be pledged for the two main annual events for a further five year period, subject to satisfactory annual evaluation, and that any additional funding required for other events be considered on an annual basis as part of the budget setting process for the following year, either as specific budget lines or as part of the broader 'other events' budget.

An amendment to the proposal was made, removing the five year timescale and pledging support for the two main events indefinitely, subject to satisfactory annual evaluation. This was voted on first but was defeated.

*Resolved, by a majority vote, that financial support totalling £30,000 be pledged towards the two main annual events for a further five year period, subject to satisfactory annual evaluation, and that any additional funding required for other events be considered on an annual basis as part of the budget setting process for the following year, either as specific budget lines or as part of the broader 'other events' budget.*

**ii. Min. 176/17 – HLF Great Places Bid:**

The Clerk submitted a copy of the expression of interest submitted to the HLF by CCBC and gave a brief verbal report on a meeting held on 28<sup>th</sup> September. Members were then asked to consider a request to provide match funding of £17,000 over a three year period, in partnership with CCBC and Colwyn BID, in an attempt to secure grant funding of £500,000.

Members felt that a request for this amount of funding should first be scrutinised by the Policy & Finance Committee, however, it was noted that a decision was needed as soon as possible to prepare the bid for submission by early December and that there may not be sufficient time to bring a recommendation back to full Council.

*Resolved to delegate the request for funding support of £17,000 over a three year period to the Policy & Finance Committee to consider and decide and to recommend that the Project Lead be invited to be present at that meeting, to explain the project in more detail and respond to any questions from members.*

**iii. Min. 178/17 – Business Continuity Plan:**

*Resolved to approve the draft Plan.*

**iv. Min. 182/17 – Small Grants:**

*Resolved to approve the payment of small grants, as detailed in Schedule 'B' to the minutes.*

**v. Min. 190/17(d) – Play Day grant funding:**

*Resolved to authorise the use of the £130 underspend towards Pop-up Play events during October half term.*

**c. *Resolved to note the resolutions of the Committees, as detailed in the Minutes.***

**203/17 Welsh Government Review of Community and Town Councils:**

The Clerk submitted a copy of the call for evidence to inform the current review of the town and community council sector.

*Resolved to request that all councillors submit any comments on the questions to the Clerk and that the Policy & Finance Committee considers these and agrees a response at its next meeting.*

**204/17 Community Resilience:**

The Clerk submitted a report from the recent meeting, for consideration. It was noted that the group had thought it best that four smaller sub-groups be formed to work on the local detail for each of the following areas: Rhos on Sea, Upper Colwyn Bay, Colwyn Bay and Old Colwyn. The Clerk sought

support from members to continue to support the group on this basis.

***Resolved to give approval to the Clerk to continue working with the sub-groups to help inform the overall resilience plan for the Bay of Colwyn area.***

**205/17 Well Being of Future Generations Act:**

The Clerk gave a brief verbal report following a meeting with local Town Clerks and the Strategic Director and Officers from CCBC, held on 5<sup>th</sup> October. It was noted that Fran Lewis had given a presentation on the Act, reminding those present of the duties on public bodies and on town and community councils with annual expenditure of over £200,000. This covered the seven wellbeing goals, the SD principle and the five ways of working, the work done by the PSB to date and the planning cycle (copy available on request from the Clerk). It was noted that behaviour change is vital, with a shift to a more collaborative approach. Fran has been asked to work with the larger town councils to provide support and advice and a further meeting has been scheduled for 28/29<sup>th</sup> November.

***Resolved to note the report of the Clerk and await further information on the PSB's Area Wellbeing Plan / Objectives, due to be released shortly.***

It as further noted that the Clerk intends to arrange a visioning session(s), once this information is available, to facilitate the agreeing of a shared vision and objectives for the town council for the remainder of the current term of office.

**206/17 Members' Ward Allowances:**

The Clerk submitted details of the scheme and a copy of the Project Proposal form and reminded members about the scheme and process to apply for funding..

**207/17 Health Services:**

The Mayor gave a brief verbal report, following an update from Dr Singh at Penrhyn Bay Surgery, who still has concerns about health services in the area. According to Dr Singh, GP surgeries are still under pressure, but the hospitals are at crises point and beds are being blocked due to lack of availability in the community (following closure of a number of community hospitals). It was noted that the Mayor has asked Dr Singh to put his concerns in writing, so that the Town Council can take these up with the Health Board officials on behalf of local residents.

The meeting closed at 8.45 p.m.

..... Chairman